# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos**
**am 7.00pm Nos Fercher 24ain o Ebrill 2024**

1. Presennol Cyng L A James Cadeirydd Cyng I Ellis; Cyng D Jones-Morris Cyng J Pierce a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau Cyng B Jones yng nghyfarfod Unllais Cyng J Lewis

3. Cod Ymddygiad
   Cyng L A James yn datgan ei bod yn ymddiriedolwr yn y Ganolfan Gymuned Penrhos

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28 -03-2024
   a. Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng D Jones Morris gafod ei eilio gan y Cyng I Ellis
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   a. Trafodwyd gohebiaeth oedd wedi ei dderbyn o Cyngor Gwynedd drwy law ein cyfreithwyr a'r angen i drefnu cyfarfod hefo'r Cyfreithwyr i drafod y cynnig oedd gerbron yn ogystal a'r angen am eglurhad am sefyllfa Y Pwyllgor Rheoli a'i hawliau yn ogystal a lle byddai peidio a dod i gytundeb yn gadael y Cyngor hwn
   **Clerc i wneud trefniadau cyfarfod**
6. Adroddiad Ariannol
   a. Mantolen Ariannol
   Roedd mantolen ariannol Ebrill wedi ei rhannu oedd ond yn dangos mae Cyflog Mis Ebrill y Clerc oedd yr unig wariant
   b. Cyfrifon 2023-24
   Dosbarthwyd Mantolen/Adroddiad ariannol defynnol 23-24
   Derbynwyd a argymell fod y Cyngor Llawn yn ei derbyn

7. Cofrestr Risg/Polisia
   Cyng L A James yn cynnig edrych drwy y Polisiau cyn y Cyfarfod Blynyddol a cynnig unrhyw addasiad tae angen cyn eu mabwysiadu

8. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw
   Argymell i'r Cyngor Llawn fod y taliadau isod yn cael eu talu
   a. Cyflog Mis Ebrill £ 693.64 H M R C Mis 1 £ 173.20 Garddio £ 700.00
   b. Torri Gwair Cae Chwarae Caerhun £ 150.00 G W Williams Vermin Control £ 136.20
   c. Sian Shakespere Rhan 2 £654.00
   d. Gareth Hughes Llawr y Capel bach £6780.00

9. Ceisiadau Nawdd
   a. Clwb Peldroed iau Penrhos Y cais wedi ei argymell mis dwaetha ar ol derbyn Mantolen ariannol oedd bellach wedi cyrraedd
   b. Eglwys St Cedol at dori'r fynwent Disgwyl cadarnhad o amcanbris cyn dod i benderfyniad

10. Prosiectau
    a. Ysgol Y Faenol Cynnig Cyfreithiol wedi ei dderbyn ond angen ymateb
    b. Capel y Fynwent Diweddariad Y llawr concrit bellach yn ei le a'r Clerc wedi cysylltu hefo cwmni lleol i holi am gyngor a amcanbris

11. 11 I'w trafod hefyd